



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 343 – 17 Mawrth 2011
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2011.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 342

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 342.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad. Estynnodd ei gydymdeimlad i deulu Selwyn Roderick yn dilyn ei farwolaeth yr wythnos hon.

Cychwynnwyd Blog mewnol gan y Prif Weithredwr er mwyn hwyluso cyfathrebu â'r staff.

4. Cyflwyniad Technoleg

Rhoddodd AR gyflwyniad i'r Awdurdod ar dechnoleg a llwyfannau newydd. Mae'r datblygiadau yn y maes hwn yn newid yn gyflym. Cyfeiriodd at y cynnydd yn y defnydd o S4/Clic a nododd fod S4C yn bwriadu lansio "ap" ar gyfer yr iphone ym mis Ebrill ac "ap" ar gyfer yr ipad ym mis Mai.

5. Trafodaethau gyda'r BBC a'r DCMS

Rhoddodd AEO ddiweddariad ar y trafodaethau rhwng S4C, y BBC a'r DCMS. Nodwyd bod pob parti yn gweithio ar bapurau esboniadol dros y 3 wythnos yn dilyn cyfarfod mis Chwefror. Nodwyd bod Keith Smith (DCMS) a Mark Wakefield (Ymddiriedolaeth y BBC) wedi penderfynu cymryd ymddeoliad cynnar felly bydd newid yn y tîm negydu.

6. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Cyflwynodd MD ei adroddiad gan gyfeirio at rai o'r rhaglenni yn y mis i ddod yn enwedig Porthpenwaig, sef cyfres ddrama newydd a leolir mewn pentre' glan y môr a ddarlledir am 2030 ar nos Sul.

7. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2010

Cyflwynodd PW "mock up" o adroddiad blynyddol a chyfrifon 2010. Cyflwynir drafft terfynol i'r Pwyllgor Cynnwys, y Pwyllgor Archwilio a'r Awdurdod ym mis Ebrill i'w cymeradwyo.

8. Adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Cynnwys

Adroddodd CE nôl i'r Awdurdod yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys y bore hwnnw. Nodwyd y canlynol:

- Adolygiad perfformiad rhaglenni'r BBC ar S4C ar gyfer 2010 - Roedd y canlyniadau'n galonogol a nodwyd bod gwerthfawrogiad rhaglenni S4C yn gyson uwch na sianeli eraill.
- Hyrwyddiadau Nawdd Dwyieithog - Bu trafodaeth yn y Pwyllgor ar hyn gan fod mwy o bwysau i gynnig hyrwyddiadau nawdd dwyieithog. Cytunwyd y dylid dilyn canllawiau iaith y rhaglen.

- Strategaeth Cynnwys 3 mlynedd 2012 - Cafwyd trafodaeth helaeth am y strategaeth. Bydd y Grŵp Strategaeth Cynnwys yn ymweld â chwmnïau annibynnol dros y bythefnos nesaf.

9. Fforwm Cyfryngau Newydd

Rhoddodd DJ adroddiad byr yn dilyn cyfarfod anffurfiol diweddar o'r Fforwm. Y bwriad yw paratoi adroddiad i'r Awdurdod o fewn rhyw 6 mis.

4. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Materion Personél
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad Gwifren